Rhagfarnau

Cysyniadau:	**Cyfeillgarwch, cenfigen, dewrder, parch, cryfder, hiliaeth.**
Amcan:	**Dysgu dangos parch at bobl sy'n wahanol i ni.**
Cyfarpar:	**Tri parsel, dau wedi eu gorchuddio â phapur lliwgar a'r trydydd wedi'i orchuddio â phapur brown.**

Cyflwyniad:

● Gosod y tri bocs ar y bwrdd. Yn y ddau focs â phapur lliwgar rhoi rhywbeth hollol ddiwerth fel papur newydd wedi'i wneud yn belen ac yn y trydydd bocs rhoi anrheg gwerth chweil. Gofyn i'r plant pa un fydden nhw'n hoffi'i agor a pham? Ydy'r gorchudd lliwgar wedi dylanwadu arnyn nhw? Gadewch i'r plant agor y bocsys yng ngŵydd y gweddill.

Trafodaeth bellach:

● Cyfle i egluro y gall diwyg ac ymddangosiad fod yn gamarweiniol a thwyllodrus. Dydi'r hyn sy'n edrych yn ddeniadol o'r tu allan ddim mor ddiddorol o'r tu mewn. Doedd pwyso a mesur diwyg y bocsys o ddim help.

● Mae hyn yn wir am bobl hefyd. Gellir, os dymunir, gyfeirio yn y cyd-destun hwn at unigolyn neu rywun dieithr sy'n ymddangos yn gyfeillgar, yn barod i rannu melysion a siocledi neu gynnig rhoi reid i chi yn y car ddim mor garedig ag y mae'n ymddangos. Angen bod yn wyliadwrus a sensitif iawn wrth gyflwyno'r elfen hon!

Stori:

Dyma stori Martin Luther King:

Dyma i chi stori am fachgen tywyll ei groen a gafodd ei siomi ar ddiwrnod ei ben-blwydd.

Cychwynnodd Martin a'i dad i lawr y stryd. Roedd hwn yn ddiwrnod arbennig iawn i'r bachgen. Ers wythnosau roedd wedi edrych ymlaen at ddydd ei ben-blwydd, sef Ionawr 15. Diwrnod oer iawn oedd y diwrnod hwnnw. Chwythai'r gwynt ac o dro i dro roedd ambell bluen eira yn disgyn. Mor braf oedd cael troi i mewn i un o'r siopau. Roedd hi'n gynnes yn y siop. Siop esgidiau oedd hon ac arogl lledr yn llenwi'r lle. Roedd pob math o esgidiau ar y silffoedd. Roedd Martin â'i lygaid ar bâr o esgidiau duon, trwm. Byddai'r rhain i'r dim i fynd i'r ysgol. Rhain fyddai ei esgidiau gorau. Dyma esgidiau i fynd i'r capel ar y Sul.

Eisteddodd Martin a'i dad ar y cadeiriau yn ffrynt y siop.

'Mae'n ddrwg gen i,' meddai'r siopwr, 'ond mae'n rhaid i chi fynd i eistedd ar y cadeiriau ym mhen draw'r siop.'

'Ond,' meddai tad Martin, 'does neb yn eistedd ar y rhain, felly, fe eisteddwn ni yma. Mae'r rhain yn gadeiriau cryfach na'r rhai yna yn y cefn.'

'Na,' meddai'r siopwr yn benderfynol. 'Mae'n rhaid i chi eistedd ar y cadeiriau yn y cefn. Cadeiriau ar gyfer pobl dywyll eu croen ydi'r rhai cefn. Dim ond pobl wyn sy'n cael eistedd ar y cadeiriau gorau yn y ffrynt.'

Erbyn hyn roedd y siopwr wedi gwylltio'n gacwn.

'Os ydych chi eisiau esgidiau newydd, yna mae'n rhaid i chi eistedd ar y cadeiriau acw,' meddai gan bwyntio at y cadeiriau bregus yn y cefn.

Meddai tad Martin yn fonheddig, 'Os nad ydyn ni'n cael eistedd ar y cadeiriau yn ffrynt y siop, fyddwn ni ddim yn prynu esgidiau newydd.'

'Na,' meddai'r siopwr yn benderfynol. 'Y cadeiriau yn y cefn sydd ar gyfer pobl dywyll eu croen.'

Cerddodd Martin a'i dad law yn llaw o'r siop. Bu'n rhaid iddo aros am fisoedd am yr anrheg pen-blwydd.

Trafodaeth bellach:

- Sut oedd Martin yn teimlo yn y siop esgidiau?

- Beth oedd agwedd y siopwr tuag at Martin? Pam?

- Fyddech chi'n cytuno ag agwedd tad Martin?

Dyfyniad o'r Beibl:

Roedd rhai o'r bobl grefyddol wedi sylwi nad oedd rhai o ddisgyblion Iesu yn golchi eu dwylo yn y ffordd iawn cyn bwyta. Dywedodd Iesu mai'r hyn sy'n dod allan o'r galon sy'n ein gwneud yn ddrwg. O'r tu mewn i chi mae meddyliau drwg yn dod. Marc 7:2, 20 (aralleiriad)

Emyn: Pan fo angen cymydog: Canu Clod 330

Munud i feddwl:

Os ydych chi eisiau chwarae cerddoriaeth ar y piano mae'n rhaid i chi chwarae'r nodau du a gwyn efo'i gilydd.

Myfyrdod/Gweddi:

O Dduw, mi ydw i'n rhy barod i weld bai ar blant a phobl am eu bod nhw'n wahanol i mi. Helpa fi i weld y gorau ym mhawb. Amen.